**Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir (Cymru)**
**Map Hollington**

# Canllaw
# Fersiwn 2.1 – Mai 2021.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cynnwys:**


1. Cyflwyniad
2. Defnyddio'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir
3. Pryd i Gomisiynu Arolwg
4. Siart Lif Penderfyniadau Arolwg
5. Creu a Defnyddio Map - Prif Bwyntiau


## Sut i Benderfynu beth yw Gradd Tir Amaethyddol:

### 1. Cyflwyniad:

Mae paragraff 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW11) yn nodi’r polisi cenedlaethol ar gyfer diogelu tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA) Cymru. Rhoddir canllawiau pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 6, ac mae'r trefniadau ymgynghori â Llywodraeth Cymru i'w gweld yn Atodiad B.

Yn ôl y diffiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn golygu tir Gradd 1, 2 a 3a. Y tir o ansawdd ardderchog i dda yw hwn, sef y tir gorau ar gyfer tyfu cnydau bwyd a di-fwyd.

Mae Dosbarthiad Tir Amaethyddol (neu Ddosbarthiadau Tir Amaethyddol fel y'i gelwir hefyd) yn ddull o asesu ansawdd tir ffermio er mwyn gallu dewis yn ddoeth, o fewn y system gynllunio, sut y dylid ei ddefnyddio yn y dyfodol. Dyma'r unig system gymeradwy ar gyfer rhoi gradd ansawdd tir yng Nghymru a Lloegr.

Bydd angen penderfynu ar y Dosbarthiad Tir Amaethyddol er mwyn cymhwyso'r Polisi Cynllunio i ddatblygu penderfyniadau rheoli. Nid oes gan Gymru raglen arolygu genedlaethol. Nid yw cynnal arolwg manwl o holl dir Cymru yn syniad realistig, hynny oherwydd y baich o ran cost ac amser.

Y sbardun i gynhyrchu Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yw awydd Llywodraeth Cymru i reoli adnoddau naturiol a'r angen am dystiolaeth well.

Mae'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yn defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i raddio holl dir y wlad. Bydd yn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol, Datblygwyr, Syrfewyr a Rheolwyr Defnyddio Tir i wneud penderfyniadau tymor hir doeth o fewn y system gynllunio ynghylch defnyddio'r tir ac i dargedu'r tir mwyaf addas i gynnal arolwg ohono.

Am ragor o wybodaeth am y System Dosbarthiad Tir Amaethyddol, ewch i adran Cwestiynau Cyffredin gwefan Llywodraeth Cymru.

### 2. Defnyddio'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir:

Y Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yw'r cam cyntaf ar gyfer casglu tystiolaeth i'r defnyddiwr allu penderfynu a oes angen ystyried paragraff 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru neu beidio.

**Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir (Cymru)**
**Map Hollington**

Nid yw'n fwriad i'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir gymryd lle'r angen am arolygon Categoreiddio Tir Amaethyddol. Bydd y Map yn helpu'r defnyddiwr i dargedu'r mannau mwyaf addas ar gyfer cynnal arolygon.

Yr unig ffordd yn wir o raddio tir yw trwy gomisiynu arolwg categoreiddio tir amaethyddol. Os yw'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn ystyriaeth, dylai ceisiadau cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol gynnwys tystiolaeth arolwg.

## 3. Pryd i Gomisiynu Arolwg:

Wrth gynnal asesiadau gofodol a gwneud penderfyniadau rheoli, mae angen gwybod beth yw gradd y tir. Mae'r siart lif isod yn esbonio'r broses benderfynu.

Os yw'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yn rhagweld bod y tir o radd 1, 2 neu 3a, bydd angen cynnal arolwg i weld beth yw gradd y tir a'r cyfrannau ohono.


Mae'r holl wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru yn sgil cynnal arolygon wedi'i chyhoeddi. Cyn comisiynu arolwg, dylech chwilio'r cofnodion hyn i weld a yw'r safle dan sylw eisoes wedi cael ei asesu.

Os nad oes cofnod bod arolwg wedi'i gynnal, neu fod arolwg wedi'i gynnal ar ran o'r safle'n unig, dylech gomisiynu arolwg Categoreiddio Tir Amaethyddol.

Bydd y Gwasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir yn rhoi cyngor ar yr arolwg sydd ei angen ac yn dilysu arolygon categoreiddio tir amaethyddol ar ran Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ddi-dâl. Bydd y gwasanaeth yn rhoi ffydd i'r awdurdod ynghylch ansawdd yr wybodaeth a ddarperir.

Pe bai unrhyw barti'n gwrthod neu'n peidio â chomisiynu arolwg, neu os gwrthodir yr arolwg gan Lywodraeth Cymru, dylid derbyn y Radd a Ragwelir fel yr wybodaeth orau sydd ar gael.

## 4. Siart Lif Penderfyniadau Arolwg:



**Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir (Cymru)**
**Map Hollington**

## 5. Creu a Defnyddio Map - Prif Bwyntiau:

- Mae'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yn cymryd lle mapiau 'Dros Dro' cyfres 1:250,00 Cymru a gynhyrchwyd rhwng 1967 a 1974.

- Diddymwyd mapiau 'Dros Dro' cyfres 1:250,000 yng Nghymru ar 27 Tachwedd 2017 ac ni ddylech eu defnyddio i gefnogi unrhyw gynnig cynllunio.

- Os oes ansicrwydd pa fap Dosbarthiad Tir Amaethyddol y dylech ei ddefnyddio, cysylltwch â LQAS@llyw.cymru am gyngor.

- Mae'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yn defnyddio canllawiau a meini prawf diwygiedig 1988 MAFF ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol.

- Mae'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir wedi'i baratoi ar sgwariau grid 50m. Cofiwch, bydd dibynadwyedd y data cefndir (yn enwedig pridd) yn amrywio. *Rhagfynegiad wedi'i fodelu* yw'r map ac *nid yw'n bendant gywir*, er ei fod yn seiliedig ar yr wybodaeth orau. Ar gyfer pob sgwâr 50m, cafodd y meini prawf unigol canlynol eu hasesu gyda'r radd isaf yn cael ei rhoi:

  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Hinsawdd
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Dyfnder y Pridd
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Goleddf
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Gwlypter y Pridd
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Sychder
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Cerrig
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Amlygrwydd i'r Gwynt
  Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Arall (Profiad yr Arolygydd)

- Nid yw'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir yn ystyried yr amodau canlynol:
  Llifogydd
  Cyfyngiadau Patrwm y Tir
  Micro-dirwedd
  Rhew
  Cyfyngiadau cemegol

  Bydd angen gofyn i arbenigwr asesu pob safle'n unigol i weld i ba raddau y gallai'r ffactorau hyn osod cyfyngiadau tymor hir.

- **Nid** yw'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir wedi'i ddylunio ar gyfer y canlynol, ac ni fyddai Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo ei ddefnyddio at y dibenion hyn:

  Prisio tir amaethyddol
  Pennu rhenti amaethyddol
  Neilltuo cymorth ariannol

- Mae gwahaniaeth mawr yn y ffordd y mae'r mapiau 'Dros Dro' a'r mapiau 'Rhagweld' yn rhannu graddau Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Y rheswm am hynny yw bod y Map Dros Dro'n seiliedig ar feini prawf sy'n hynach na

chanllawiau a meini prawf Diwygiedig cyfredol MAFF 1988 ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol a'r Map Priddoedd Cenedlaethol. Mae canllawiau 1988 wedi hen ennill eu plwyf ym maes cynllunio, felly nid yw'r system raddio'n un newydd.

- Lle gwelir bod y radd a ragwelir yn wahanol i'r radd ar y Map Dros Dro ac y teimlir bod hynny wedi arwain at anfantais ariannol neu fel arall, nid yw Llywodraeth Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd am hynny. Mae'n ddeelledig ers tro bod y system Categoreiddio Tir Amaethyddol yn sail i gyngor Llywodraeth Cymru ar faterion cynllunio defnyddio tir ac nid at unrhyw ddiben arall fel prisio tir.

- Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu a diweddaru'r Map Dosbarthiad a Ragwelir wrth i wybodaeth well gael ei datblygu.

- Os teimlir nad yw'r radd a ragwelir yn adlewyrchiad teg o ansawdd y tir amaethyddol, ni fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn arolwg Categoreiddio Tir Amaethyddol ond fel tystiolaeth y dylid newid y Radd. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n atebol am unrhyw gostau. Caiff Map y Dosbarthiad a Ragwelir ei newid fel y gwêl Llywodraeth Cymru'n dda. Os bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn y newidiadau a gynigir, fe'u cyhoeddir pan gaiff y Map Dosbarthiad a Ragwelir ei ddiweddaru.

- Mae'r Map o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol a Ragwelir ar gael fel haenen GIS gan ddangos Graddau 1-5. Bydd ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored.

Am ragor o wybodaeth, cyngor neu i ddilysu arolwg, cysylltwch a'r : Gwasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir
E-bost: LQAS@llyw.cymru

Gwe: Gwybodaeth Dosbarthiad Tir Amaethyddol